

## ENDERBIE, PERCY c. 1606 - 1670, hanesydd a hynafiaethydd

**Enw:** Percy Enderbie

**Dyddiad geni:** c. 1606

**Dyddiad marw:** 1670

**Priod:** Winifred Enderbie (née Morgan)

**Rhiant:** Elizabeth Enderby (née Rusforth)

**Rhiant:** Thomas Enderby

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** hanesydd a hynafiaethydd

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Awdur *Cambria Triumphans*. Ail fab ydoedd, yn ôl y *Lincolnshire Pedigrees* (Harleian Society), i Thomas Enderby, cyfreithiwr yn ninas Lincoln, a'i wraig, Elizabeth, ferch Robert Rusforth, Coley Hall, sir Efrog. Yn ôl ei achres deuluol fe'i ganwyd rhwng 1604 a 1608 - fe'i gofnodwyd rhwng brawd a anwyd yn 1604 a chwaer a anwyd yn 1608. Gwraig Percy Enderbie oedd Winifred, chwaer [Sir Edward Morgan](#) o Llantarnam, a merch i'r 'Lady Frances,' ferch [Edward, 4ydd Iarll Worcester](#). Bu Enderbie fyw flynyddoedd yng Nghymru, dysgodd Gymraeg, a magodd sêl fawr dros genedl y Cymry a'i hanes. Yn ei ragair i'r *Cambria Triumphans*, a sgrifennwyd yn Llantarnam, dywed iddo gael llawer o'i ddefnyddiau yn llyfrgell ei frawd-yng-nghyfraith, [Syr Edward Morgan](#). Cyhoeddwyd ei lyfr yn fuan ar ôl Adferiad y Brenin yn 1660, a'i amcanion oedd dangos mai 'brenhinol oedd dull llywodraeth Prydain erioed,' a thynnu sylw teulu Stuart at eu hachau Cymreig. Y llyfr hwn yw un o'r ffynonellau prin am wybodaeth o ffin yr iaith Gymraeg yn y 17eg ganrif.

Yn yr un flwyddyn, sef 1661, cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg Enderbie o waith B. Pererius (Valentinus) yn erbyn sêr-ddewiniaeth. Yr oedd yn fwriad gan Enderbie sgrifennu hanes sir Fynwy, a chasglodd lawer o ddefnyddiau i'r perwyl hynny. Defnyddiwyd achau, etc., o'i waith gan [David Williams](#) yn ei *The History of Monmouthshire*, 1796, a dywed [Bradney](#) yn ei *History of Monmouthshire* mai Enderbie oedd awdur tebygol y 'Pistyll MSS.' 'Honnir bod yr achau yn N.L.W. MS. 1472 yn seiliedig ar hen lawysgrif o waith Enderbie. Bu adargraffiad o'r *Cambria Triumphans* yn 1810.

Bu farw yn ôl argraffiad Bliss Anthony Wood (III, 994) yn 1670.

### Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

### Ffynonellau

Enderbie, *Cambria triumphans, or Brittain in its perfect lustre shewing the origen and antiquity of that illustrious nation, the succession of their kings and princes, from the first, to King Charles, of happy memory* (1661, 1810)

Bradney, *A History of Monmouthshire*

T. D. Kendrick, *British Antiquity, etc.* (Llundain 1950)

*British Museum. Catalogue of Printed Books* (1882)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734131](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

